**Egni Cymwynas**

*(i gydfynd ag Oriel 'Arwyr Cymunedol mewn cyfnod COVID' yn y Senedd)*

Mae stadiwm ein gwlad yn dywyll
ond yn bair o bosibliadau…
(er nad oes band am chwarae)

Ymhlith y rhesi gwag, mae adlais torf
yn chwyddo'n gytgan;
a gwreichion hen haelioni
yn ffaglu'n fil o fflamau mân.

Peth felly yw egni cymwynas –
y trydan cudd, ymhob cwr o'n gwlad,

sy'n nôl ffisig,
neu'n gwneud neges;

sy'n rhannu sgwrs
fel rhosyn annisgwyl;

sy'n gylch,
pan freichiwn ein gilydd
o bell…

Ac wrth i ni anturio
drwy diroedd newydd ein hen gynefin,
yr ail-fapio yw ein her;

ond er chwithdod
cofleidiau rhithiol,

a diflastod

pob clo dros dro,

mae gwefr mewn cymwynas o hyd:

– fel cyffwrdd yr haul â blaen bys! –

a llewyrchwn fel gwlad yn ei sgîl…

**Ifor ap Glyn**

Bardd Cenedlaethol Cymru

*Comisiynwyd gan Llenyddiaeth Cymru a Senedd Cymru, Rhagfyr 2020.*